

Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd Supporting Businesses in Gwynedd



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 21.05.2021

Pub is the Hub – grantiau cymunedol

Mae grantiau hyd at £3,000 ar gael i alluogi perchnogion tafarndai gwledig, trwyddedeion a chymunedau lleol i gydweithio i helpu i gefnogi a chynnal gwasanaethau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Bydd Cronfa Gwasanaethau Cymunedol Pub is the Hub yn cynorthwyo prosiectau sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol drwy ddefnyddio tafarndai i gynnig gwasanaeth newydd neu i gynnig gwasanaeth sydd eisoes wedi'i golli, megis siop leol, llyfrgell, swyddfa bost neu ganolfan gymunedol, neu'n annog tafarndai i gaffael cynnyrch lleol, darparu prydau ysgol, hyfforddiant TG a gwasanaethau eglwysig. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

<https://www.pubisthehub.org.uk/community-services-fund/>

Cronfa Sector Addysg Awyr Agored Preswyl

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa i gefnogi'r sector addysg awyr agored preswyl yng Nghymru gyda dyraniad cychwynnol o £2m. Bydd y gronfa hon yn rhoi cymorth i ganolfannau cymwys ledled Cymru i dalu costau

gweithredu hanfodol yn ystod y cyfnod rhwng misoedd Mehefin a Medi 2021. Bydd y gronfa'n cynnwys uchafswm grant wedi'i gapio o £45k fesul ymgeisydd llwyddiannus. Mae ceisiadau ffurfiol am gyllid yn debygol o gael eu gwahodd yn fuan mis Mehefin 2021, gyda dyddiad cau o 3 wythnos i'w cwblhau. Er mwyn mesur cymhwysra tebygol a'r nifer sy'n manteisio ar y gronfa, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r sefydliadau hynny a allai fod yn gymwys i gael cymorth, ac sy'n dymuno gwneud cais, lenwi ffurflen fer datganiad o ddiddordeb. Ewch i:

<https://fundchecker.businesswales.gov.wales/residential/cy>

Cei Llechi Caernarfon: Unedau ar gael

Mae cynllun adfywio safle Cei Llechi Caernarfon yn dirwyn i ben ac mae unedau gwaith/manwerthu ar gael i'w rhentu. Yn clymu yr hen a'r newydd, bydd y Cei Llechi fodern yn cynnig gwagle i greu, i brofi ac i werthu a phrynu. Y fenter gymdeithasol, Galeri Caernarfon Cyf sydd yn gyfrifol am reoli a rhedeg y safle ar ran Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon.

Bydd yr adeiladau ar eu newydd wedd yn cynnig cartref newydd i fusnesau creadigol a masnachol gan ddod a diwydiant (er ar raddfa wahanol i'r hen oes) yn ôl i'r safle pwysig yma yn y dref.

Mae'r safle yn cynnwys 19 uned gwaith/manwerthu, arddangosfa/cyflwyniad i hanes Cei Llechi, ystafell gyfarfod a 3 llety gwyliau hunan arlwyo. Mae'r prosiect i ail-ddatblygu Cei Llechi wedi bod yn bosibl gyda chymorth ariannol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Cenedlaethol, Cadw, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon.

I drafod rhentu uned neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Gwyn Roberts: ceillechi@galericacarnarfon.com

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:

<https://www.ceillechi.cymru/>

M-SParc: Recriwtio'r Dyfodol 26 Mai 2021, 10:30am – 12:00pm

Os ydych yn meddwl am recriwtio, dyma'r digwyddiad i chi. P'un a ydych chi'n fusnes sy'n recriwtio neu a fydd yn recriwtio, neu'n rhywun sy'n chwilio am yrfa

newydd, mae'r digwyddiad hwn yn llawn popeth sydd angen i chi ei wybod. Bydd bloc rhwydweithio hefyd i'ch galluogi i ddod o hyd i'ch cyflogwr / gweithiwr newydd ar y diwrnod! Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

<https://bit.ly/3tZgcUc>

Gweminar Busnes Cymru | Gweithredu fel Cwmni Cyfyngedig: 25 Mai 2021, 1.00pm – 4.00pm

Mae'r weminar hon wedi'i hanelu at bobl sy'n ystyried gweithredu o dan strwythur Cwmni Cyfyngedig. Bydd yn amlinellu gofynion cyfreithiol y Cwmni a chi'ch hun fel Cyfarwyddwr, yn ogystal â sut y bydd hyn yn wahanol i weithredu fel Masnachwr Unigol neu Bartneriaeth. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

<https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/gweithredu-fel-cwmni-cyfyngedig/>

· I archebu'ch lle, cysylltwch â swyddfa Business Wales North ar 01745 585025 neu e-bostiwch northwales@businesswales.org.uk

Cyfes Gweithdai Gwytnwch ar gyfer Mentrau Cymdeithasol Cymru: Ailfeddwl Ffrydiau Incwm 26 & 27 Mai 2021, 9.30am – 12.30pm

Dyluniwyd y gweithdy Ffrydiau Incwm Ailfeddwl i gefnogi busnesau cymdeithasol i archwilio'r realiti masnachu newydd sy'n dod i'r amlwg o'r pandemig. Os ydych chi eisiau dysgu sut i adolygu'ch model cyfredol, archwilio gwahanol offer twf, ffynonellau cyllid ac archwilio'r cysyniad o Fentrus Mentrus a gweithio mewn partneriaeth – dyma'r gweithdy i chi. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

<https://bit.ly/3hHhSPy>

Diweddariad Brexit

- Recordiadau a fideos sy'n amlinellu'n fanylach y rheolau newydd ar gyfer symud nwyddau i mewn ac allan o'r UE:
<https://bit.ly/2T0FTqx>
- Rheolau newydd ar gyfer mewnforio ac allforio nwyddau. Mewnforio: trosolwg:
<https://bit.ly/3v6Un6C>
- Calendr o weminarau sydd ar y gweill ar gyfer sefydliadau sy'n masnachu gyda'r UE:
<https://bit.ly/340s6CL>
- Gweminarau technegol pwrpasol sy'n mynd i'r afael â materion sydd wedi codi ar draws y gwahanol lwybrau masnachu wrth i'r rheolau newydd ddod i rym:
<https://bit.ly/3hFLih3>

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19>

<https://twitter.com/BusnesGwynedd>

Rhwydwaith Busnes Gwynedd

<https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan>

<https://twitter.com/gwyneddbusnes>

Busnes Cymru

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/>

https://twitter.com/_busnescymru

Busnes@llandrillomenai

<https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts>

<https://twitter.com/busnesLLM>

FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

Croeso Cymru

<https://twitter.com/croesocymrubus>

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf

<https://bit.ly/3kIWPAU>

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwrch
busnes@gwynedd.llyw.cymru